

ISSN 2053-5171
Rhifyn 7
Gwanwyn 2015

Herio Materion Crefyddol

Jeff Astley
ar Gwrthrychedd
Profiad Crefyddol:
Dadleuon Athronyddol

Mark Fox
ar Y Cyfan yn y Meddwl?
Seicoleg Crefydd
a Phrofiad Crefyddol

James Francis
ar Hunaniaeth a
Pherthyn: Persbectif ar
Lythyr Paul at y Galatiaid

William K. Kay
ar Y Mudiadau Pentecostaidd
a Charismataidd

Herio Materion Crefyddol

Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

Rhifyn 7 Gwanwyn 2015

Cynnwys

Gwrthrychedd Profiad Crefyddol: Dadleuon Athronyddol Jeff Astley	2
Y Cyfan yn y Meddwl? Seicoleg Crefydd a Phrofiad Crefyddol Mark Fox	10
Hunaniaeth a Pherthyn: Persbectif ar Lythyr Paul at y Galatiaid James Francis	16
Y Mudiadau Pentecostaidd a Charismataidd William K. Kay	22

Golygydd

Professor Jeff Astley (Prifysgol Glyndŵr)

Golygydd Rheolaethol

Dr Tania ap Siôn (Prifysgol Glyndŵr, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

Ymgynhorwyr Golygyddol

Yr Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)

Libby Jones (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Glyndŵr)

Phil Lord (Arweinydd System, GwE)

Yr Athro Peter Neil (Prifysgol Bishop Grosseteste)

Dr Stephen Parker (Prifysgol Worcester)

Jenny Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Dr Paul Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Y Parchedig Mary Stallard (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Y Gwir Barchedig David Walker (Prifysgol Glyndŵr)

Yr Athro Michael West (Prifysgol Glyndŵr)

Dyluniwyd gan Phillip Vernon

Cyfieithiad gan Nant Roberts

Herio Materion Crefyddol

Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

Llys Onnen

Abergwyngregyn

Gwynedd

LL33 0LD

Ffôn: 01248 680131

E-bost: t.apsion@glyndwr.ac.uk

Gwefan: www.st-marys-centre.org.uk

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru

Gwrthrychedd Profiad Crefyddol: Dadleuon Athronyddol

Jeff Astley

Mae'r erthygl hon yn amlinellu ac yn trafod dwy agwedd ar y broblem o wrthrychedd profiad crefyddol.

Cyswllt manyleb: RS4 HE: Astudio Crefydd a'r Profiad Dynol, Profiad Crefyddol [mewn athroniaeth crefydd]; hefyd CBAC RS1/2 PHIL: Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd (AS), 4. Cyflwyniad i brofiad crefyddol.

Cyflwyniad

Caiff y gair *profiad* ei ddefnyddio i labelu digwyddiad neu amgylchiad, yr ydym yn ymwybodol ohono, sy'n digwydd i ni – rhywbeth yr ydym yn byw trwyddo neu sy'n dod i'n rhan. Mae'r term *profiad crefyddol* yn amwys (gwelwch Peterson, Hasker, Reichenbach & Basinger, 2013, tt. 37-47). Fe all gyfeirio at amrywiol emosiynau neu gyflwr-deimladau sy'n nodweddiadol gysylltiedig â chyd-destun crefyddol: profiadau 'goddrychol' o lawenydd, dyhead, euogrwydd, derbyniad, gwerth, ymddiriedaeth lwyr, ac ati. Neu, fe all yr ymadrodd ddynodi profiadau yr honnir iddyn nhw fod o 'arwyddocâd gwybyddol', fel profiadau o rai endidau (goruwch naturiol). Yn ôl pob golwg, profiadau 'gwrthrychol' yw'r rhain: profiadau sy'n wir - '*veridical*' (geirwir neu fanwl gywir, yn cyd-ddigwydd â realaeth - '*coinciding with reality*').

Mae ysgolheigion fel William Alston yn ceisio osgoi amwysedd y term 'profiad crefyddol' trwy ysgrifennu am *ganfyddiad cyfriniol (mystical perception)* neu 'brofiad cyfriniol', y mae ef yn ei ddiffinio fel unrhyw brofiad y mae'r goddrych yn ei gymryd fel bod yn brofiad o Dduw ac fel ymwybyddiaeth brofiadol uniongyrchol dybiedig [honedig] o Dduw- '*any experience that is taken by the subject to be an experience of God*', and as a '*putative [reputed, supposed] direct experiential awareness of God*'. Yma, mae Alston yn defnyddio ystyr eang y term 'cyfriniol' o'i gyferbynnu ag ystyr gul sy'n gymwys yn unig i brofiadau o uniad â Duw, Realiti Eithaf neu Natur trwy amsugnad unigoliaeth y cyfriniwr (Alston, 1991, tt. 35-36; 2005, tt. 199-200; cf. Gellman, 2005, tt. 138-141).

Mae athronwyr â diddordeb yn bennaf mewn profiad crefyddol fel mater ymddangosiadol wrthrychol, yn hytrach

Gwrthrychedd Profiad Crefyddol: Dadleuon Athronyddol

na mater hollol oddrychol. Fe all yr hawliad epistemolegol (hawliad ynghylch gwybodaeth) y mae yn ei ennyn fod ar un o *ddwy ffurf*.

- (1) 'Profiad allanol' yw profiad crefyddol, yn y synnwyr o brofiad dibynadwy, uniongyrchol o wrthrych sy'n bodoli'n allanol - '*a reliable, direct 'experience of an externally existing object'*' (Gaskin, 1984, t. 80).
- (2) Mae i brofiad crefyddol seiliau cadarn y gallwn ni resymu bodolaeth Duw arnyn nhw fel yr eglurhad gorau ynghylch ffenomen o'r fath.

Mae'n ddefnyddiol gwahaniaethu'n glir rhwng yr ail ddadl hon ynghylch profiad crefyddol a'r agwedd gyntaf bod rhai profiadau'n cynnwys canfyddiadau gwir o Dduw - '*that certain experiences constitute veridical perceptions of God'*' (Alston, 1991, t. 3).

Profiad crefyddol fel canfyddiad o Dduw

Fe fydd credinwyr crefyddol, fel y rhai hynny (y rhan fwyaf ohonom) sy'n credu bod coed a phobl yn bethau sy'n bodoli o ddifri, yn siarad yn aml am *brofi'n uniongyrchol* wrthrych eu cred. Ysgrifenna John Cook Wilson fel a ganlyn:

If we think of the existence of our friends; it is the 'direct knowledge' which we want: merely inferential knowledge seems a poor affair. . . . We don't want merely inferred friends. Could we possibly be satisfied with an inferred God? (Wilson, 1926, t. 853)

Lluniodd Alston yr amddiffyniad llawnaf i'r hawliad bod profiad o Dduw, yn y ffordd hon, yn brofiad diffuant - yn ffurf ar ganfyddiad. Mae'n dadlau bod unrhyw dybiaethau y mae rhywun yn eu canfod, i fod felly - ar yr olwg gyntaf i'w cyfiawnhau

... oni bai bod rhesymau cyferbyniol digon cryf i'r gwrthwyneb, sy'n cael eu galw'n 'or-redwyr' - '*any supposition that one perceives something to be the case . . . is prima facie [at first sight, 'on the face of it'] justified . . . unless there are strong enough reasons to the contrary*' ('overriders'). Mae *unrhyw* gredoau seiliedig ar brofiad yn meddu ar hygrededd cychwynnol oherwydd y gwreiddyn hwn; 'yn ddiuog nes y caiff ei brofi'n euog'. Y safbwynt hwn, sy'n cael ei ddadlau'n eang yn achos canfyddiad synnwyr, yw'r unig ddewis arall i amheuaeth gydwybodol ynghylch profiad - *Any beliefs based on experience 'possess an initial credibility' because of this origin: 'they are innocent until proven guilty.'* This view, '*widely advocated for sense perception, is 'the only alternative to a thoroughgoing scepticism about experience'*' (Alston, 1998, t. 67).

Mae Alston yn dadlau bod mwy nag un ffurf o'r hyn mae'n ei alw'n ymarfer '*doxastic*' parhaus cymdeithasol-sefydledig cyfiawnadwy. (*Doxastic practice* yw ei enw ef am ffordd o ffurfio credoau a'u gwerthuso; a'r gair Groeg *doxa* yn cael ei ddeall yma fel 'barn' neu 'gred'). Mae canfyddiad synnwyr, mewnsylliad, cof a ffurfiau amrywiol o resymu yn rhai enghreifftiau. Enghraifft arall yw profiad crefyddol. Ym mhob achos o'r fath allwn ni ddim peidio ag ymddiried yn yr arferion. Ond, allwn ni ddim, fodd bynnag, gyfiawnhau'r arfer heb gylchogrwydd: trwy ddibynnu arno rydyn ni'n adeiladu tystiolaeth o'i ddibynadwyaeth (e.e. bod ein profiad synnwyr yn amrywio gyda newidiadau yn ei wrthrychau). Mewn gwirionedd, does dim dewis arall rhesymol i fod yn ymwneud â nhw, ac nid yw eu deilliannau'n cael eu hamharchu oherwydd canlyniadau'r arferion eraill. Mae'n bosib felly ystyried profiad

Gwrthrychedd Profiad Crefyddol: Dadleuon Athronyddol

crefyddol fel rhywbeth cymdeithasol-sefydledig, ac na ddylai gael ei ddiarddel rhag derbynnaeth resymol, (gweler Alston, 1991, tt. 149-153, 168-170, 194). Mae'n cyhuddo beirniaid profiad crefyddol o'r imperialaeth epistemig (*epistemic imperialism*) o ddarostwng deilliannau un arfer ffurfio cred i anghenion un arall; ac mae'n nodi bod arferion *doxastic* parhaus cymdeithasol-sefydledig eraill fel mewnsylliad (ymwybyddiaeth o'ch cyflyrau ymwybodol eich hunain) hefyd yn hollol wahanol i brofiad synnwyr (Alston, 1998, t. 69).

Er bod Richard Swinburne yn bwrw ei drafodaeth (fyrnach o lawer) ef ei hun yn nhermau dadl eglurhaol, mae llawer ohoni mewn gwirionedd yn amddiffyniad ynghylch profiad crefyddol fel canfyddiad. Lle mae Alston yn darparu dadansoddiad 'mwy cymdeithasol' o brofiad crefyddol, fel ymarfer doxastic cyfan, mae Swinburne yn canolbwyntio ar resymoledd credoau *unigol* yn seiliedig ar brofiad crefyddol.

Mae Swinburne yn diffinio profiad crefyddol fel profiad sy'n ymddangos yn epistemaidd i'r gwrthrych ei fod yn brofiad o Dduw - '*an experience that seems (epistemically) to the subject to be an experience of God*'.¹ Mae profiad o'r fath *yn wir* yn brofiad o Dduw, os ac yn unig os yw'n ymddangosiadol i berson bod Duw'n bresennol mewn gwirionedd wedi ei achosi oherwydd bod Duw'n bresennol - *Such an experience is really an experience of God if and only if its seeming to a person 'that God is present is in fact caused by God being present'* (Swinburne, 2004, tt. 295-296). Ac fel y bydd Duw sy'n cadw popeth mewn bodolaeth bob amser ymysg yr achosion am fy mhrofiad, does dim angen i hyd yn oed eglurhad 'naturiolaid' neu 'seicolegol' o brofiad crefyddol drechu ei hawliad i wrthrychedd. (Fodd bynnag, mae'r

anhawster yn parhau, sef na ellir canfod *absenoldeb* Duw.)

Ond sut y gwyddom ni nad *rhithganfyddiad* yw profiad crefyddol? Y brif feirniadaeth am yr hawliad i wrthrychedd yn achos profiad crefyddol, yn wahanol i brofiad synnwyr, yw bod y *meini prawf arferol ar gyfer profi* yn absennol. Fe fyddai'r rhain yn cynnwys gwiriadau yn erbyn synhwyrâu eraill ac o dan wahanol amodau, cyflawniad rhagfynegiadau empirig, cysondeb â phrofiadau eraill a chytundeb â sylweddoliadau eraill (y mae Alston yn eu galw'n brofion rhyng-oddrychol effeithiol ar gyfer cywirdeb - '*effective intersubjective tests for accuracy*').

Fodd bynnag, fe allai tri ffactor wneud y profion normal hyn ar gyfer profiad synnwyr fod yn anghymwys ar gyfer profiad crefyddol.

- *Natur profiad crefyddol* fel 'synnwyr' unedol a nodedig (yn wahanol i'r pum synnwyr mewn profiad synnwyr), y 'gynneddf honno sydd heb fod gan bawb.
- *Natur Duw* fel realiti:
 - ◇ sydd heb fod yn ganfyddadwy drwy brofiad synnwyr;
 - ◇ y mae ei weithgarwch cyffredinol yn perthyn i'r byd cyfan (ac felly o bosib ddim yn arwyddo unrhyw hawliadau empeiraidd neilltuol y gellir eu gwrthbrofi); ac
 - ◇ sydd yn rhydd i roi, neu gelu, datguddiadau neilltuol. (Cf. Alston, 2005, tt. 213-218.)
- *Natur bodau dynol* fel:
 - ◇ derbynwyr a dehonglwyr ffaeledig a phechadurus o brofiad crefyddol,
 - ◇ rhai sydd angen bod mewn rhyw fath o gyflwr ysbrydol neilltuol cyn y gallan nhw gael profiad iawn o Dduw.

¹Gyda'r synnwyr epistemaidd hwn o 'ymddangos felly', mae Swinburne yn cyfeirio at yr hyn mae'r gwrthrych yn dueddol o'i gredu ar sail ei brofiad/ ei phrofiad presennol.

Gwrthrychedd Profiad Crefyddol: Dadleuon Athronyddol

Mae Swinburne yn dadlau dros ddwy egwyddor sylfaenol rhesymoledd. Mae'r ddadl gyntaf, *Egwyddor Hygoledd (Principle of Credulity)* yn hanfodol yr un peth â hawliad Alston ynghylch credadwyaeth gychwynol credoau yn seiliedig ar brofiad. Noda fersiwn Swinburne, sydd yn fersiwn gryfach, fod yr hyn y mae rhywun yn ymddangos ei fod yn ei ganfod yn debyg o fod felly – *'What one seems to perceive is probably so'* (yn yr ystyr bod hynny'n fwy na thebygol), ond dim ond *yn absenoldeb amodau arbennig*, fel:

- (i) bod amodau'r profiad, neu'r person sy'n cael y profiad, wedi bod yn annibynadwy yn y gorffennol;
- (ii) hawliad canfyddiadol tebyg wedi cael eu profi'n anwir;
- (iii) ar dystiolaeth gefndirol, doedd gwrthrych y profiad ddim yn bresennol, o bosib, neu;
- (iv) nid gwrthrych tybiedig y profiad oedd ei achos, o bosib. (Cf. Swinburne, 2004, tt. 303-322; Davis, 1989, penodau 4 a 5.)

Hawlia Swinburne nad yw'r amodau hyn yn wir fel arfer ynghylch profiad crefyddol, ac mae'n dod i'r casgliad y dylai profiad crefyddol tebygol o Dduw gael eu cymryd fel rhywbeth geirwir oni bai y gellir ei ddangos ar seiliau eraill mwy tebygol yn arwyddocaol fwy tebygol na pheidio, nad yw Duw'n bodoli - *'a religious experience apparently of God ought to be taken as veridical unless it can be shown on other grounds significantly more probable than not that God does not exist'* (Swinburne, 2004, t. 321).

Mae ei *Egwyddor Tystiolaeth (Principle of Testimony)* yn gwneud pâr â'r Egwyddor Hygrededd, wrth hawlio bod

profiadau pobl eraill (yn absenoldeb ystyriaethau arbennig) yn union (o bosib) fel y byddan nhw'n eu hadrodd - *'(in the absence of special considerations) the experiences of others are (probably) as they report them'* (t. 322). Fe fyddai'r *ystyriaethau arbennig* hyn yn cynnwys tystiolaeth o anwiredd, gor-ddweud neu gam gofio. Os nad yw'r pethau hyn yn gymwys, fe fyddai gan berson reswm da dros ymddiried ym mhrofiadau pobl eraill, er ddim yn rheswm mor dda ag sydd ganddo ef neu hi i ymddiried yn ei phrofiadau ei hunan - er cyn belled ag y bydd nifer o bobl eraill yn cyflwyno adroddiadau tebyg, mae hynny'n cynyddu eu credadwyaeth yn fawr - *'in so far as a number of others give similar reports, that greatly increases their credibility'* (t. 323). Heb egwyddor o'r fath, fe fyddai ein gwybodaeth yn gyfyngedig iawn yn wir, ac fe ddylai gael ei hystemyn i gofleidio profiad crefyddol. Mae Alston yn dadlau mewn ffordd debyg, ond ychydig gwannach, nad oes 'rheswm cadarn' dros i ni beidio â derbyn tystiolaeth pobl eraill yn achos profiad crefyddol, fel rydym yn gwneud gyda phrofiad synnwyr, cyn belled â'u bod yn meddwl bod eu harfer doxastic o brofiad crefyddol yn ddibynadwy neu'n rhesymol - *no 'sound reason' for our not accepting other people's testimony in the case of religious experience, as we do in sense experience, provided that we think that their doxastic practice of religious experience is 'reliable or rational'* (Alston, 1991, tt. 279-284).

Efallai bod angen gwiriadau pellach. Ond yn aml hawli'r fod gan yr arfer o brofiad crefyddol ei 'ddulliau gwirio' a 'phroffion derbyniad ysbrydol' ei hun - *has its own 'checking procedures' and 'tests of spiritual receptivity'* (cf. Alston, 1991, tt. 209-225). Yn ôl Gary Gutting, os yw

Gwrthrychedd Profiad Crefyddol: Dadleuon Athronyddol

profiad crefyddol o Dduw'n wrthrychol fe allen ni ddisgwyl tri pheth:

1. byddai'r rhai sydd wedi cael profiadau o'r fath yn debygol o'u cael eto;
2. canfyddir bod unigolion eraill wedi cael profiadau tebyg;
3. bydd y rhai hynny sydd wedi cael profiadau o'r fath yn gweld eu bod nhw'n cael cymorth yn eu hymdrechion i fyw bywyd gwell yn foesol. Mae'r holl ddisgwyliadau hyn yn dilyn o natur y bod profiadol a'i bryder amdanom. . . . ac yn achos rhai profiadau crefyddol, mae'r holl ddisgwyliadau hyn yn cael eu cyflawni ar raddfa uchel iawn. (Gweler Gutting, 1982, t. 152; cf. O'Hear, 1984, tt. 45-49.)

Beirniadaeth

(Cf. Alston, 2005, tt. 208-213; Davis, 1989, pennod. 5; Gellman, 2005, tt 155-162.)

1. Rydym eisoes wedi cwrdd â beirniadaeth ar yr hawliadau ynghylch gwrthrychedd profiad crefyddol yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhyngddo â phrofiad synnwyr. Nid yw profiad crefyddol yn gyffredinol, yn barhaus nac yn anochel; mae hefyd yn llai manwl ac yn fwy aneglur Ond pam y dylai pob profiad fod fel profiad synnwyr?
2. Mae llawer o gredoau anghymarus wedi eu seilio ar brofiad crefyddol. Ond fe allai'r rhain fod yn brofiadau dilys o wahanol agweddau ar realiti trosgynnol; neu fe allai rhai ohonyn nhw fod yn gamganfyddiadau (os yw profiad crefyddol ddim yn anffaeledig).
3. Mae ambell eglurhad naturiolaid fel petai'n ceisio egluro profiadau crefyddol fel effaith cyflyrau seicolegol neu niwrolegol. Ond dim ond tystiolaeth ar gyfer cydberthynas fyddai hyn, o

bosib, nid achosiad, ac fe allai Duw achosi profiadau crefyddol trwy effeithio ar ein hymennydd a'n cyflyrau seicolegol. (Gwelwch erthygl Mark Fox yn rhifyn hwn y cylchgrawn.)

Duw fel yr eglurhad gorau ynghylch profiad crefyddol

Mae bodolaeth Duw wedi cael ei drin hefyd fel yr eglurhad gorau am y ffenomen o brofiad crefyddol, yn y ffordd y mae'n bosib meddwl am fodolaeth 'real' coeden fel yr eglurhad gorau am y data synnwyr sy'n perthyn i mi (canfod y goeden trwy fy synhwyr; ymddangos fy mod yn gweld, teimlo, neu'n gallu aroglir goeden). Mae llawer o ysgolheigion felly'n trin profiad crefyddol fel rhywbeth sy'n mynnu cael ei ddehongli a'i egluro trwy'r system-gred theistiaeth (*theism*).

- (a) Os yw Duw (fel mae'n cael ei ddisgrifio yn system-gred S) yn bodoli, yna fe fydd profiadau sy'n agored i gael eu dehongli yn ôl DS yn debygol o ddigwydd. (Er enghraifft, os yw S yn Gristnogaeth, Mae'n debygol y bydd profiadau o ddatguddiadau proffwydol, presenoldeb sanctaidd neu ddwyfol, gweddïau'n cael eu hateb, synnwyr o faddeuant ar ôl cyffesu pechodau, bywydau'n cael eu hadnewyddu yn dilyn gweithred o ffydd, ac ati.)
- (b) Mae profiadau sy'n cael eu dehongli dan S yn digwydd.
- (c) Does dim ffyrdd gwell yn wybyddus i egluro achlysuron y profiadau neilltuol hynny.
- (d) Felly mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod Duw'n bodoli. (gweler Donovan, 1979, t. 91)

Mae Donovan yn dadlau nad yw cywirdeb neu anghywirdeb dehongliad

Gwrthrychedd Profiad Crefyddol: Dadleuon Athronyddol

i'w gael trwy ddim ond edrych ar y profiad dan sylw. Mae'n angenrheidiol hefyd archwilio'r system ddiwinyddol gyfan yn ôl sut y caiff y profiad ei ddehongli - *'the truth or falsity of an interpretation is not to be found by looking merely at the experience involved. It is necessary as well to examine the whole theological system in terms of which the interpretation of that experience is made'* (t. 35). Ac fe fydd amcangyfrifiad rhywun o werth unrhyw brofiad neilltuol yn dibynnu ar sut y bydd y person hwnnw'n gwerthuso'r system gred gyfan yn nhermau'r hyn mae'r profiad hwnnw'n cael ei ystyried yn arwyddocaol - *'one's estimate of the value of any particular experience will depend on how one evaluates the total belief system in terms of which that experience is thought to be significant'* (t. 72).

Os mai dyma'r achos, yna fe fyddai'r ddadl gasgliadol yn ymddangos fel petai'n datblygu i drydedd sefyllfa:

Sefyllfa dewis y ddau

Mae Basil Mitchell yn rhesymu bod y dewis rhwng (a) Duw fel hypothesis esboniadol gasgliadol ansicr, a (b) nad yw Duw fel realiti profiadol y gellir bod yn sicr ohono ddim yn hypothesis anghynhwysol. Mae Mitchell yn cynnig cydweddiad. Mae morwr yn hawlio gweld goleudy trwy storm. Dim ond yng ngoleuni adroddiadau eraill, cyfrifiad lleoliadau ar fap ac ati, y gellir barnu honiad y morwr. Allwn ni ddim penderfynu ynghylch gwrthrychedd yr ymddangosiad ei fod wedi gweld y goleudy *ar sail ei adroddiad ef yn unig.*

The question whether there was a lighthouse there and the question whether the officer of the watch saw it or saw something else, or just imagined that he saw it, can only be answered in

relation to some overall appraisal of the situation.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwneud y goleudy ddim ond yn endid casgliadol heb fod yn realiti wedi ei brofi - *this does not make the lighthouse 'merely an inferred entity and not an experienced reality'*. Yn hytrach mae angen yn aml i brofiad uniongyrchol gael ei ategu gan resymoli anuniongyrchol er mwyn cyfiawnhau hawl i wybodaeth trwy arsylliad - *direct experience often needs the support of indirect reasoning in order to justify a claim to knowledge by observation* (Mitchell, 1974, t. 113; cf. Davis, 1989, t. 144 a phennod 6). Mae caniatáu'r cefndir hwn o brofiad perthynol mewn canfyddiad synhwyrdd, ond nid mewn profiad crefyddol, yn cynnwys safonau dwbl - *'To allow this background of related experience in sensory perception but not in religious experience constitutes a double standard'* (Peterson, Hasker, Reichenbach & Basinger, 2013, t. 50). Aiff Mitchell yn ei flaen:

It is assumed that claims to direct awareness of God must be either self-authenticating [i.e. their occurrence is alone sufficient to establish the truth of the claims based on them] or disguised inferences. Since they are clearly not self-authenticating they must be disguised inferences. I suggest a third possibility: that they are what they purport to be, cases of direct awareness, but that the claim that this is what they are relies upon there being a theory or conceptual scheme in terms of which the claim can be adequately defended.

(Mitchell, 1974, t. 115)

Yn achos hawliadau am fodolaeth Duw, felly, fe fyddai 'ymddangos fel cael profiad o Dduw' yn ddigon i dybio bod

Gwrthrychedd Profiad Crefyddol: Dadleuon Athronyddol

rhywun yn cael profiad o Dduw yn dibynnu'n rhannol ar ba mor debygol neu annhebygol yw bodolaeth Duw yn ôl a fernir oddi wrth ddadl a thystiolaeth gefndirol. Mewn geiriau eraill, gan gymryd y safbwynt hwn ni all profiad crefyddol byth fod yn ddigonol ar ben ei hun. Mae angen i'r hawliadau gan bobl

sy'n dweud eu bod wedi cael profiad o Dduw gael eu hategu gan fframwaith rhesymegol o gredoau y gellir eu hamddiffyn (byd-olwg sy'n cynnwys diwinyddiaeth resymegol, gredadwy). Ni all hawliadau ynghylch profiad crefyddol sefyll ar ben eu hunain.

Geirfa

Epistemig (Epistemic) – yn ymwneud â gwybodaeth.

Cysylltau

<http://plato.stanford.edu/entries/religious-experience/>(Mark Webb, *Stanford Encyclopedia of Philosophy*)

Pwyntiau trafod

1. Sut y byddai'n bosib cymhwyso'r amodau arbennig sy'n cyfyngu Egwyddor Hygoledd i hawliadau anarferol eraill: e.e. ymddangos fel pe byddech yn gweld coblyn bach (*leprechaun*) yn eich drôr hosanau, neu ysbryd yn yr ystafell ymolchi? Ac i ba raddau y gellid cymhwyso'r hawliadau hyn i synhwyro presenoldeb Duw mewn addoliad neu weddi?
2. Ym mha ffyrdd y mae profiadau crefyddol (a) yn debyg i, a (b) yn annhebyg i brofiadau synnwyr?
3. A yw John Hick yn iawn i hawlio bod pobl sydd ddim yn cael profiadau crefyddol mewn unrhyw fodd, ddim yn meddu ar seiliau da ar gyfer cred grefyddol (*people 'who do not experience religiously in any degree whatever' possess 'no good grounds for religious belief'*)?

Cyfeiriadau

- Alston, W.P. (1991). *Perceiving God: The epistemology of religious experience*. Ithaca, New York: Cornell University Press.
- Alston, W.P. (1998). God and religious experience. In *Philosophy of religion: A guide to the subject* (tt. 65-69). Ed. B. Davies, London: Cassell.
- Alston, W.P. (2005). Mystical and perceptual awareness of God. In *The Blackwell guide to the philosophy of religion* (tt. 198-219). Ed. W.E. Mann, Oxford: Blackwell.
- Davis, C.F. (1989). *The evidential force of religious experience*, Oxford: Clarendon Press.
- Donovan, P. (1979). *Interpreting religious experience*. London: Sheldon Press.
- Gaskin, J.C.A. (1984). *The quest for eternity*, Harmondsworth, Penguin.
- Gellman, J.I. (2005). Mysticism and religious experience. In *The Oxford handbook of philosophy of religion* (tt. 138-167). Ed. W.J. Wainwright, Oxford: Oxford University Press.
- Gutting, G. (1982). *Religious belief and religious skepticism*. Notre Dame, Indiana: University of Notre Dame Press.
- Mitchell, B. (1973). *The justification of religious belief*, London: Macmillan.
- Peterson, M., Hasker, W., Reichenbach, B., & Basinger, D. (2013). *Reason and religious belief: An introduction to the philosophy of religion*. New York: Oxford University Press.
- Swinburne, R. (1979, 2004). *The existence of God*, Oxford, Clarendon Press.
- Wilson, J. Cook (1926). *Statement and inference*, Vol. II, Oxford: Oxford University Press.

Mae'r Parchedig Athro Jeff Astley ar hyn o bryd yn Athro Profiad Crefyddol ac Ysbrydol Alister Hardy ym Mhrifysgol Glyndŵr. Ef oedd sefydlydd-gyfarwyddwr y North of England Institute for Christian Education, ac mae'n Athro Anrhydeddus ym Mhrifysgolion Durham a York St John. Ei lyfr diweddaraf yw Studying God: Doing theology (SCM Press, 2014).

Y Cyfan yn y Meddwl? Seicoleg Crefydd a Phrofiad Crefyddol Mark Fox

Mae'r erthygl hon yn ceisio archwilio rhai o'r cyfraniadau mwyaf arwyddocaol tuag at ddeall profiad crefyddol sydd wedi codi o fewn seicoleg crefydd – ac yn bendant o fewn niwro-wyddoniaeth – ac i asesu eu heffeithiolrwydd, ynghyd â'r rhagdybiaethau sy'n waelodol iddyn nhw.

Cyswllt manyleb: CBAC RS1/2 Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd (AS), 4. Cyflwyno profiad crefyddol; CBAC RS4 HE: Astudio Crefydd a'r Profiad Dynol (A2), profiad crefyddol.

Cyfarfyddiadau anghyffredin

Mewn amgylchiad hollol gyffredin, cafodd merch 22 oed brofiad hynod anghyffredin. Roedd yn eistedd wrth ei bwrdd gwisgo yn ei hystafell wely, yn gwneud rhywbeth digon arferol pan ddigwyddodd rhywbeth iddi. Dyma gyfieithiad o'r hyn a ddywedodd:

Roeddwn i, yn sydyn, wedi fy llethu gan bresenoldeb Duw. Roeddwn i'n hollol syfrdan. Wyddwn i ddim bod Duw'n bodoli o gwbl. Wedi gwrthod [enw'r grefydd] fy mhentyndod tra roeddwn i'n dal i fod yn fy ardegau, roeddwn i fwy neu lai yn agnostig heb ddim diddordeb mewn crefydd .
Doeddwn i ddim yn meddwl am y peth ar y pryd, fodd bynnag. Cefais fy hun yn chwilfriw, wedi fy ysgwyd i seiliau fy modolaeth. Fy ymateb cyntaf oedd nad oedd unigolyn i fod i wybod am hyn a fy mod yn siŵr o fod yn mynd i

farw. Felly, fe faglais at y gwely, mynd iddo, a thynnu'r dillad gwely drosof fel plentyn ofnus; nid ymgais i ddianc oedd hyn - fe fyddai hynny'n chwerthinllyd, oherwydd bod Duw yn amlwg y tu mewn i mi - roedd yn fwy o ystum i ddal fy hunan ynghyd, amsugno'r sioc ac arbed fy hun rhag chwalu, mewn gwirionedd, yn ddarnau mân.

Tra roedd y ferch hon ddim yn ymddangos fel petai wedi gweld unrhyw beth, trwy ysgrifennu am ei phrofiad a dweud nad oedd yn weledigaeth, doedd dim golau na lleisiau, roedd ei phrofiad er hynny, wedi ei gadael ag argyhoeddiad cryf o realiti Duw. Gan fyfyrio 36 mlynedd yn ddiweddarach ar yr hyn yr oedd hi wedi ei ddysgu o'i chanfyddiad bythgofiadwy, fe haerodd yn hyderus bod Duw'n fod personol y gallwn ni berthnasu ag ef, ond nid oedd wedi meiddio ei gyfarch - '*God is a personal*

Y Cyfan yn y Meddwl? Seicoleg Crefydd a Phrofiad Crefyddol

being to whom we can relate, not that I dared to address Him' (Maxwell & Tschudin, 1990, tt. 84-85).

Beth wnawn ni o brofiadau fel hyn? Maen nhw'n brofiadau mwy cyffredin nag a feddyliai rhywun. Mae Ymddiriedolaeth Alistair Hardy, ar hyn o bryd, yn noddi dwy Ganolfan Ymchwil Profiad Crefyddol, un yng Ngholeg Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a'r llall ym Mhrifysgol Glyndŵr. Yn yr archif o brofiadau crefyddol mae ar hyn o bryd dros 6,000 o lythyrau a thystiolaethau a gasglwyd ers ei dechreuad yn 1969. Mae pob un yn cynnwys un neu fwy o ddisgrifiadau sy'n debyg - yn debyg iawn ambell waith - i'r disgrifiad ar ddechrau'r erthygl hon. Mewn manau eraill, mae cylchgronau a chyhoeddiadau fel *De Numine*, *The Christian Parapsychologist*, *Fortean Times* a *Kindred Spirit* yn aml yn rhoi lle arwyddocaol i brofiadau anarferol y darllenwyr eu hunain sy'n ymwneud â'r ysbrydol a'r cysegredig.

Yn y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd yn y diddordeb mewn egluro profiadau o'r fath o safbwynt seicoleg, ac yn bendant o fewn *niwro-wyddoniaeth*: efallai bod hyn oherwydd cynnwys anarferol adroddiadau o'r fath, ynghyd â'r ffaith eu bod mor aml yn cynnwys disgrifiadau o brofiadau sy'n cael eu *teimlo* yn hytrach nag yn cael eu hamgyffred trwy'r synhwyrau. Felly, mae ein hymwybyddiaeth o amllder profiadau crefyddol wedi tyfu, felly hefyd mae'r cynigion i'w hegluro'n naturiolaid ar gynnydd: hynny yw, mewn termau hollol faterol a bydol sy'n ceisio egluro eu tarddiad a nodweddion mewn prosesau'r ymennydd y gellir eu neilltuo, eu harchwilio a'u mesur. Mae datblygiad cyflym niwro-wyddoniaeth yn ystod y degawdau diwethaf wedi helpu'r broses hon gryn lawer, ac fe fathwyd y term niwro-ddiwinyddiaeth (*neurotheology*)

tua ugain mlynedd yn ôl fel label ar is-ddisgyblaeth wyddonol a oedd yn datblygu. Roedd yr is-ddisgyblaeth hon yn ceisio profi y tu hwnt i bob amheuaeth bod profiadau crefyddol ac ysbrydol anarferol, waeth pa mor drawiadol y maen nhw'n ymddangos i'w derbynyddion diolchgar yn aml, er hynny, i gyd yn y meddwl. Bydd yr erthygl hon yn ceisio archwilio rhai o'r damcaniaethau blaengar o fewn y maes hwn sy'n ceisio egluro profiadau crefyddol mewn ffyrdd o'r fath.

Archwilio'r ymennydd

Erbyn dechrau'r unfed ganrif ar hugain, roedd technegau niwro-wyddonol i sganio a mapio'r ymennydd wedi datblygu i'r pwynt lle roedd yn bosib i ymchwilwyr neilltuo pa ran o'r ymennydd a allai fod yn gysylltiedig â 'mathau' penodedig o brofiadau crefyddol. Roedd Andrew Newberg ac Eugene D'Aquili (1991) yn neilltuo o gyffrous ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio'r technegau hyn i geisio dangos pa rannau o'r ymennydd a fyddai'n gysylltiedig â chynhyrchiad profiad cyfriniol. Mae'r math hwn o brofiad crefyddol wedi ei gynrychioli'n dda yn y llenyddiaeth, ac fe sonnir yn nodweddiadol ei fod ar ddwy ffurf. Cyfriniaeth fewndroedig a chyfriniaeth alldroedig. Mae cyfriniaeth fewndroedig (introvertive mysticism) - gan ddilyn terminoleg a fynegwyd yn gyntaf gan W.T Stace - yn gyflwr anarferol iawn, yn yr hwn y mae'r cyfrinydd yn cael ei hunan yn sydyn yn un â Duw; profiad a barodd i un a oedd wedi cael y profiad nodi ei fod wedi teimlo'n un â'r Bydysawd neu'r Grym Creadigol yr ydym yn ei adnabod - 'for a few moments I really did feel at one with the Universe or the Creative Power we recognize. I know it was a feeling of oneness with something outside myself,

Y Cyfan yn y Meddwl? Seicoleg Crefydd a Phrofiad Crefyddol

and also within' (Happold, 1963, t. 138). Caiff cyfriniaeth alldroëdig (extrovertive mysticism), mewn gwrthgyferbyniad, ei nodweddu gan gyflwr yr un mor anarferol yn yr hwn y bydd y sawl sy'n cael y profiad yn dweud ei fod yn dod yn un â'r tir, fel mae'n nodi yn y dyfyniad canlynol o adroddiad a wnaed gan ddyn yn eistedd mewn cae chwarae yn disgwyl cymryd ei dro mewn gêm.

Suddenly, and without warning, something invisible seemed to be drawn across the sky, transforming the world about me into a kind of tent of concentrated and enhanced significance. What had been merely an outside became an inside. The objective was somehow transformed into a completely subjective fact, which was experienced as 'mine', but on a level where the word had no meaning; for 'I' was no longer the familiar ego. (Happold, 1963, t. 130)

Beth tybed, meddyliai Newberg a D'Aquili, sy'n digwydd yn ymennydd unigolion sy'n mynd trwy brofiadau o'r fath? Mae'r ffaith bod profiadau cyfriniol yn digwydd mor sydyn yn achosi problemau amlwg o ran unrhyw gynnig i archwilio'r bobl hynny'n arbrofol, ond roedd Newberg a D'Aquili yn ymwybodol bod profiadau o'r fath yn cael eu hysgogi ambell dro gan ffurf benodol o fyfyrion. Felly, fe wnaethon nhw hysbysebu am wirfoddolwyr a oedd yn gallu cymell cyflyrau cyfriniol yn y ffordd hon. Wedi dod o hyd i sampl fach fe aethon nhw ymlaen i lunio arbrawf. Wrth fynd i mewn i gyflwr o undod, cyfarwyddwyd y gwirfoddolwyr i dynnu ar linydd, gweithred a oedd yn rhoi arwydd i'r ymchwilwyr chwistrellu olrheiniwr ymbelydrol a fyddai'n eu galluogi i 'fapio' trwy gyfrwng sgan SPECT, pa rannau o ymennydd yr un sy'n myfyrion oedd yn ymddwyn yn

anarferol ar y pwynt hwnnw: os yn wir yr oedd unrhyw rannau'n gwneud hynny. Yn wir, yr oedd dwy ran yn gwneud, ac roedd un o'r rhain - y Llabed Barwydol Uwch (*Superior Parietal Lobe*) - o ddiddordeb neilltuol i'r ymchwilwyr, o wybod mai dyma'r rhan o'r ymennydd sy'n gwahaniaethu'n barhaus rhwng yr hunan a'r byd. Nododd Newberg a D'Aquili, yn ystod cyfnodau penodol lle'r oedd y rhai a oedd yn myfyrion adrodd am eu profiad o undod, roedd llai o weithgarwch yn y rhan hon o'r ymennydd, ynghyd â mwy o weithgarwch mewn rhannau eraill o'r ymennydd a gysylltir fel arfer â thagio profiadau yr un mor ystyriol ddwfn, ac wedi eu lleoli'n benodol o fewn y system limbic. Roedd fel petai'r weithred o fyfyrion yn galluogi'r gwirfoddolwyr i 'ddiffodd' y rhan neilltuol honno o'r ymennydd sy'n nodweddiadol yn dweud wrthym ble mae ein ffiniau tra roedden nhw, ar yr un pryd, yn cael eu 'gorlifo' ag iasau o deimladau ystyrlon dwfn. Gan gymryd bod profiadau cyfriniol yn aml yn cael eu nodweddu gan yr union ddilead o ffiniau, ynghyd â theimladau o natur ysbrydol dwfn, ystyriai Newberg a D'Aquili bod eu canfyddiadau yn arwyddocaol o ran ynysiad a lleoliad y trigeri niwrologaidd a tharddiadau math penodol o brofiad crefyddol. Ni fyddai'n hir cyn byddai ymchwilwyr eraill yn dod i gasgliadau yr un mor gyffrous yn seiliedig ar yr ymennydd o ystyried 'mathau' eraill o brofiadau crefyddol.

Hynt Michael Persinger

Fel y dechreuodd blynnydoedd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain, ymddangosodd ymchwilydd yn y Brifysgol Lawrenciaidd (Laurentian University), Michael Persinger, fel un o niwro-ddiwinyddion blaenllaw'r byd. Gan seilio'i ganfyddiadau ar ymchwil eang, hawliai Persinger mai trawiadau micro bychain

Y Cyfan yn y Meddwl? Seicoleg Crefydd a Phrofiad Crefyddol

yn llabedau arlais yr ymennydd oedd yr eglurhad am ystod eang o brofiadau anarferol, yn cynnwys profiadau crefyddol. Trwy alw'r trawiadau hyn yn '*Temporal Lobe Transients*' (TLTs), awgrymodd Persinger eu bod yn gyffredin ymhlith rhan fawr o'r boblogaeth, heb i ffit wirioneddol fod yn gysylltiedig, â nhw, ac y gallen nhw beri amrediad o ffenomenau dywededig, a ddosbarthodd Persinger yn ffurfiau neu arwyddion 'meddal' neu 'galed'. Hawliodd bod arwyddion 'meddal' yn cynnwys y profiad o dirluniau llachar, goleuadau anarferol, *déjà vu*, a synhwyro presenoldeb anweledig, tra roedd arwyddion 'caled' yn cynnwys synnwyr o fod wedi 'cael ei ddewis' gan Dduw, cyflyrau hynod newidedig o ymwybyddiaeth, a synnwyr dros dro, ond hynod lachar, o bwysigrwydd personol mawr. Ond tybed beth fyddai'n achosi TLTs? Awgrymodd Persinger amryw bethau, yn cynnwys episodau o argyfwng personol a newidiadau yn swyddogaeth normal yr ymennydd yn cael ei achosi gan newidiadau dros dro i lefelau'r ocsigen.

Efallai yn fwyaf nodedig, hawliai Persinger ei fod wedi datblygu cyfarpar - a'i alw'n *Transcranial Magnetic Stimulator* - a oedd mewn gwirionedd yn gallu cynhyrchu ac, o ganlyniad, greu profiadau o'r fath. Yn ei labordy yn y Brifysgol Lawrenciaidd aeth ati i'w creu yn ymddangosiadol yn ôl ei ddymuniad, yn gyntaf trwy gynhyrchu awyrgylch o 'ysbrydolrwydd' ddyrchafedig, trwy ddefnyddio pethau fel iconau crefyddol a barau clychau gwynt (*wind chimes*), ac yna trwy danio byrstiau bach o feysydd electromagnetig yn union at labedau arlais ymennydd yr unigolion y mae'n arbrofi arnyn nhw. Mae dyfyniadau o ddisgrifiadau'r gwirfoddolwyr ynghylch eu profiadau dilynol, yn wir, yn ymddangos

eu bod yn cynnwys rhannau lle maen nhw'n synhwyro presenoldeb, yn cael profiad o deimladau anarferol, ac yn teimlo'u hunain wedi eu gwahanu dros dro oddi wrth leoliadau normal o fewn eu cyrff. Adroddodd rhai gwirfoddolwyr hefyd am 'ddychweliad' sydyn o bethau anghofiedig, yn cynnwys episodau o'u plentyndod (Fox, 2008, tt. 184-91).

Gwerthuso niwro-ddiwinyddiaeth

Tra bod cyflawniadau eofn Newberg, D'Aquili a Persinger ymhell o fod yn cynrychioli crynswth cyfraniad niwro-ddiwinyddiaeth tuag at ddeall ac ymchwilio i brofiad crefyddol, rhaid dweud eu bod yn cynrychioli rhai o'r enghreifftiau gorau o waith sydd wedi codi o'r is-ddisgyblaeth gymharol newydd a chyffrous hon. Ond mae rhai, fodd bynnag, sydd wedi bod yn feirniadol o'r union ymchwil a wnaed a'r rhagdybiaethau y mae'n seiliedig arnyn nhw. Mae beirniaid, er enghraifft, wedi nodi cyn lleied oedd maint y samplau a ddefnyddiwyd gan Newberg a D'Aquili, a'r elfennau braidd yn amrwd a ddefnyddiwyd yn eu dulliau ymchwil - fel y gwirfoddolwyr yn tynnu llinyn fel ffordd o arwyddo cychwyniad eu profiadau.

Derbyniodd Persinger, yn enwedig, feirniadaeth arwyddocaol. Yn benodol, honnir er ei fod wedi cynhyrchu rhai profiadau anarferol yn ystod ei ymchwil, nid yw'r rhain yr un fath â'r profiadau crefyddol 'gwir', ac wrth archwilio adroddiadau rhai o'i wirfoddolwyr ymddengys eu bod yn nodi sawl profiad grotesg a bisâr, yn cynnwys dadleoliad dros dro o aelodau eu corff, a dwylo anweledig y 'teimlo' yr organau mewnol. Yn ychwanegol, mae fersiynau o'i *Transcranial Magnetic Stimulator* wedi bod ar gael ers nifer o flynyddoedd ond heb lwyddo i gynhyrchu'r math o

Y Cyfan yn y Meddwl? Seicoleg Crefydd a Phrofiad Crefyddol

brofiadau y mae Persinger wedi eu hawlio am y ddyfais. Yn olaf, mae'r beirniad Craig Aaen-Stockdale wedi tynnu sylw at ba mor hynod o wan yw cryfder y maes a gynhyrchir gan y ddyfais, gan ei disgrifio fel bod tua 5000 gwaith gwannach na magnet oergell, ac yn dod i gasgliad nad yw ei gyfarpar yn cael unrhyw effaith ystyrlon ar yr ymennydd - *'there is simply no way that his apparatus is having any meaningful effect on the brain'* (Fox, 2014, t. 158). Mae rhai o feirniaid Persinger yn awgrymu ei fod, yn syml, wedi creu awyrgylch hynod awgrymog ysbrydol yn ei labordy, a bod ei wirfoddolwyr yn syml yn adrodd am brofiadau sy'n codi o'r synnwyr o ddisgwyliad, sydd wedi ei ddwysau, yn hytrach na digwyddiadau sy'n cael eu cynhyrchu o fewn llabed yr arlais.

Archwilio honiadau

Un honiad pwysig sy'n tanategu holl ymdrechion niwro-ddiwinyddiaeth yw bod cyflyrau meddyliol naill ai yr un peth â chyflyrau'r ymennydd neu'n cael eu cynhyrchu ganddyn nhw. Felly, trwy honni ar y dechrau y gall y meddwl gael ei ddarostwng yn ontolegol i ymennydd, mae'r ymchwilyr yn ymddangos fel pe bydden nhw'n ceisio cynhyrchu (a thrwy hynny'n canfod) newidiadau anarferol mewn swyddogaeth feddyliol naill ai trwy drin yr ymennydd neu trwy astudio'r bobl

hynny sy'n gallu yn ôl pob golwg - er mai dros dro - addasu ei swyddogaeth yn ôl eu dymuniad. Yr hyn sy'n broblemus yma yw'r posibilrwydd real, tra bydd newidiadau yn y cyflwr meddyliol o bosib yn *cydberthyn* i newidiadau yng nghyflwr yr ymennydd, efallai nad yw'r rheini mewn gwirionedd yn cael eu *hachosi* ganddyn nhw, a bod tarddiad beth bynnag sy'n achosi hyn o ddifrif yn gorwedd yn rhywle arall. A mwy problemus fyth yw'r heriau i'r damcaniaethau hunaniaeth meddwl-ymennydd sydd wedi datblygu – ac sy'n parhau i ddatblygu – o'r tu mewn i is-ddisgyblaethau academaidd fel athroniaeth y meddwl. Mae'n dal i fod ymhell o sicrwydd mai cyflyrau meddyliol yn syml yw cyflyrau'r ymennydd, neu ei bod yn bosib darostwng yr ail yn ddi-broblem i'r cyntaf. Wedi dweud hyn, rydym ar hyn o bryd yn byw yng nghanol rhywbeth sy'n tueddu at chwyldro yn ein dealltwriaeth o'r ymennydd a'i swyddogaeth, yn fwyaf oherwydd datblygiad technolegau newydd sy'n caniatáu dealltwriaeth gynyddol fwy o'r meddwl, yr ymennydd a'r berthynas rhwng y ddau. Gobeithir mai un o'r manteision a fydd yn codi o chwyldro o'r fath efallai fydd dealltwriaeth well o darddiadau profiad crefyddol yn yr ymennydd a'i brosesau: os mai dyma fydd yr achos, y bydd tarddiadau o'r fath yn wir yn cael eu darganfod yno.

Geirfa

Déjà vu yw'r synnwyr goddrychol a darfodedig bod yr hyn sy'n cael ei brofi wedi cael ei brofi, yn union yr un fath, o'r blaen.

Cyfriniaeth alldroëdig (Extrovertive mysticism): math o brofiad cyfriniol

sy'n cael ei nodweddu gan y teimlad o fod yn 'un' â phopeth.

Cyfriniaeth fewndroëdig (Introvertive mysticism): math o brofiad cyfriniol sy'n cael ei nodweddu gan y teimlad o fod yn 'un' â Duw.

Y Cyfan yn y Meddwl? Seicoleg Crefydd a Phrofiad Crefyddol

Niwro-ddiwinyddiaeth

(*Neurotheology*): archwiliad gyfarwyddol-niwrowyddonol, ar y mwyaf, o'r posibilrwydd o leoli achos profiad crefyddol o fewn yr ymennydd.

Darostyngiad ontologaid

(*Ontological reduction*) yw darostyngiad y 'bod' mewn un endid i'r 'bod' mewn endid arall (o'r gair Groeg *ontos*, 'bod' ('*being*').

Pwyntiau trafod

1. I ba raddau mae'n briodol ceisio egluro profiadau crefyddol mewn ffyrdd naturiolaid, 'y byd hwn'?
2. A ddylem geisio asesu 'gwerth' profiadau crefyddol trwy archwilio o ble y gallen nhw fod wedi dod, neu mewn ffyrdd eraill fel yr hyn y byddai'n bosib iddyn nhw arwain ato?
3. A yw darostyngiad ontolegol y meddwl i ymennydd yn bosib? Pa faterion sy'n codi wrth geisio gwneud hyn?

Cyfeiriadau

D'Aquili, E., & Newberg, A. (1999). *The mystical mind: Probing the biology of religious experience*. Minneapolis, Minnesota: Fortress Press.

Fox, M. (2014). *The fifth love: Exploring accounts of the extraordinary*. Kidderminster: Spirit and Sage.

Happold, F. (1963). *Mysticism: A study and an anthology*. Harmondsworth: Penguin.

Maxwell, M., & Tschudin, V. (1990). *Seeing the invisible*. London: Arkana.

Mae Dr Mark Fox wedi darlithio ac ysgrifennu'n eang ar themâu profiad crefyddol a pharanormal; ar hyn o bryd mae'n addysgu Athroniaeth ac Astudiaethau Crefyddol yng Ngholeg King Edward VI, Stourbridge. Ymhlith ei gyhoeddiadau yn y gorfennol mae Religion, spirituality and the near-death experience, London: Routledge, 2003 a Spiritual encounters with unusual light phenomena: Lightforms, Cardiff: University of Wales, 2008. Cyhoeddwyd ei lyfr diweddaraf, The fifth love: Exploring accounts of the extraordinary, gan Spirit and Sage yn 2014 (ar gael trwy Amazon Kindle; neu gan Spirit and Sage Ltd, 50 Beaulieu Close, Kidderminster, Worcestershire, DY11, 5EE [£9.99]).

Hunaniaeth a Pherthyn: Persbectif ar Lythyr Paul at y Galatiaid

James Francis

Mae hunaniaeth a pherthyn yn themâu arwyddocaol ar gyfer ystyr dynol yn ogystal â thraethiad crefyddol. Mae'r erthygl hon yn ystyried materion sy'n ymwneud â hunaniaeth yn epistol Paul at y Galatiaid yn y Testament Newydd, gan archwilio'r dadleuon ar y naill ochr a'r llall i'r hyn oedd yn ddadl lem. Mae'n dangos sut yr oedd cred Gristnogol gynnar yn cael ei nodweddu gan yr amrywiaeth oedd ynghlwm wrth lunio'r hunaniaeth a oedd yn datblygu pan oedd yn cael ei ffurfio.

Cyswllt manyleb: CBAC RS3 BS: Astudio Astudiaethau Beiblaidd, RHAN B: Astudio'r Testament Newydd (A2), 3. Arweinyddiaeth Gristnogol a Chenhadaeth.

Cyflwyniad

Mae'r bardd-offeiriad Cymreig R. S. Thomas yn diffinio crefydd fel ymateb cyfan gwbl y person cyfan i realiti – 'the total response of the whole person to reality' (Thomas, 1963, t. 8). Pwrpas y traethawd hwn yw archwilio'r ddadl am hunaniaeth grefyddol rhwng Paul a'i wrthwynebwyr (yr Iddeweiddwyr - Judaisers) a'i harwyddocâd yng nghydestun dechreuadau Cristnogol, y mae llythyr Paul at y Galatiaid yn cynnig eglureb neilltuol ohoni.

Ers amser maith, mae'r llythyr at y Galatiaid wedi bod yng nghanol y dadleuon ynghylch ystyr a phwrpas yr efengyl yn yr Eglwys Gristnogol. Darpara C. K. Barrett astudiaeth glir a chryno ynghylch pam mae hyn yn bod wrth drafod y thema o ryddid ac ymrwymiad yn y llythyr (Barrett, 1985). Dan faner

cyfiawnhad trwy ffydd, mae'r llythyr at y Galatiaid wedi ysbrydoli ac arwain llawer yn eu gwrthdrawiadau gwleidyddol ac ysbrydol, yn cynnwys Martin Luther a Dietrich Bonhoeffer. Yn derbyn llai o gynrychiolaeth yng ngwaith esboniadol a diwinyddol ysgolheigion mae'r cwestiwn sylfaenol am arwyddocâd neilltuol o hunaniaeth a pherthyn.

Mae hyn hefyd yn mynd law yn llaw â'r berthynas rhwng dilyniant a newid. Mae unrhyw ystyriaeth o hunaniaeth yn gweithredu gyda'r tyndra rhwng derbyniad ac addasiad. Yn groes i'n byd modern, roedd cymdeithas yr hen fyd yn gwerthfawrogi dilyniant. Roedd hi hefyd yn amheus o newydd-deb. Tueddid i dderbyn datblygiadau newydd i'r graddau eu bod yn cyseinio â'r hyn oedd eisoes wedi bod. Mae'r gwahaniaeth rhwng dau air Groegaid am 'newydd', neos a

Hunaniaeth a Pherthyn: Persbectif ar Lythyr Paul at y Galatiaid

kainos, yn dangos hyn. Roedd y gair neos yn arwyddo rhywbeth oedd yn disodli'r hen, tra roedd y gair kainos yn golygu'r newydd mewn safbwynt dyfnach o adnewyddiad. Yn y Testament Newydd Groegaid gwneir defnydd o kainos yn hytrach na neos. Mae'r rhagolwg hwn yn ffurfio cred yr Eglwys bod gwaith Duw yng Nghrist yn ddechreuad newydd yn ogystal â dilyniant â'r gorffennol.

Cefndir

Mae'r llythyr yn canolbwyntio ar yr anghytuno llym rhwng Paul a'i wrthwynebwyr ynghylch a oedd enwaediad yn ofynnol, fel defod derbyn ar gyfer Cenedl-ddynion oedd yn troi tuag at yr Eglwys, yn ogystal â bedydd (5:2; 6:12-13). Roedd enwaediad gymaint yn rhan o adnabyddiaeth Iddewig fel roedd bod yn Iddewig a chael eu galw'n 'yr enwaediaid' yn gyfystyr (2:3). Mae'n bwysig, fodd bynnag, cadw mewn cof bod dadl Paul gyda Christnogion Iddewig yn hytrach na gyda'r Iddewon. Nid dadl yw hon rhwng Cristnogion ac Iddewon ond gwrthdrawiad oddi mewn i'r Eglwys oedd yn tyfu. Gallwn ddweud hyn oherwydd bod Paul yn honni bod 'efengyl Crist' yn draethiad ar y cyd (1:6-9). Felly yn 1:7 a 2:4 mae Paul yn eu galw'n 'gau gredinwyr' a 'llechgwn (troublemakers)' (cf. 5:10 - mae'r cyfeiriad at yr 'hwnnw' unigol yma'n gallu golygu prif derfysgwyr) (Barrett, 1985, t. 68; Dunn, 1993, tt. 277-278), ac felly roedd yr Iddeweiddwyr yn credu o ddifrif ynddyn nhw'u hunain fel brodyr ac yn rhannu statws a oedd yn gydnabyddedig gan gyd-Gristnogion. Efallai bod yr Iddeweiddwyr hyn yn grŵp trefnus oddi mewn i'r Eglwys, gyda chyfres eglur o egwyddorion ynghylch hunaniaeth a pherthyn wedi ffurfio oddi mewn i ledaeniad cenhadaeth y Cenedl-ddynion

yn yr Eglwys. Gallai'r disgrifiad hwn o'r 'gau gredinwyr' fod yn cael ei gymhwyso yn yr un modd at Paul a'i ddilynwyr gan yr 'Iddeweiddwyr', ac mae'n debyg ei fod hefyd.

Er mai Paul oedd wedi sefydlu'r Eglwys, roedd dyfodiad dilynol yr 'Iddeweiddwyr' yn achosi anghydfod arwyddocaol yn y gynulleidfa, a hynny ynddo ei hun yn dystiolaeth o ddarbwylliad eu dadleuon (5:15). Roedd grymuster y ddadl (5:12) yn dangos nad oedd lle i gyfaddawd, fel oedd y naill a'r llall yn ei gweld hi. (Mae hyn hefyd yn dwyn i mewn y mater perthynol o ymosodiad ar awdurdod Paul fel apostol (1:1), er nad oes cyfle i ddilyn y trywydd hwn ymhellach. Mae'n dangos, fodd bynnag, nad oes modd gwahanu cwestiynau ynghylch hunaniaeth oddi wrth faterion yn ymwneud â grym ac awdurdod.)

Mae'r ddadl, fel gyda holl drafodaethau am hunaniaeth, yn tynnu ar naratif a rannwyd o'r gorffennol a'r cwestiwn sut mae newid yn cynnal neu'n chwalu'r stori hon, ac a yw'n gwneud hynny. Roedd y naill ochr a'r llall yn cytuno fod y gorffennol hwn wedi ei gadw yn stori Abraham a'r datganiad yn Genesis 15:6 'Credodd Abraham yn yr Arglwydd, a chyfrifodd yntau hyn yn gyfiawnder iddo'. Ond o dderbyn eu gwahanol safbwyntiau ynghylch bod yn Gristion, mae'r ddadl yn canolbwyntio ar sut yr oedd y naill a'r llall yn deall arwyddocâd y testun hwn.

Safle'r Iddeweiddwyr

O'r hyn sydd oddi mewn i ddadl Paul ei hun, gallwn adeiladu safbwynt yr Iddeweiddwyr sydd i'w weld yn cynnwys pedwar honiad sy'n rhyng-blethu:

- Gwnaeth Duw gyfamod ag Abraham, a'i droi o fod yn eilunaddolwr i fod yn berson o ffydd, yn seiliedig ar

Hunaniaeth a Pherthyn: Persbectif ar Lythyr Paul at y Galatiaid

undduwiaeth. Fe ymatebodd i alwad Duw trwy ufudd-dod, a thrwy dderbyn enwaediad.

- Mae perthyn i deulu Abraham yn golygu etifeddu'r addewidion a wnaeth Duw iddo ef a'i had. Yr unig ffordd i mewn i'r cyfamod ffafriol hwn oedd trwy enedigaeth neu fel proselyt.
- Roedd y rhai oedd yn rhan o'r cyfamod wedi eu clymu ynghyd gan ymrwymadau i reolau Moses (Gen.17:9-14), wedi eu tanategu gan y siars yn Deut. 27:26.
- Er bod Abraham yn dad i hil arall (Ismael), a genhedlwyd gyda Hagar, gwraig o blith y caethweision, roedd Duw yn ddiweddarach wedi ymyrryd i roi iddo Isaac, a genhedlwyd gyda Sara, ei wraig a oedd yn wraig ryddfreniol. Yn unol â'r stori yn Gen. 21:10, 12, cadarnheir Isaac felly fel 'y gwir had', a golyga hyn nad oes le i unrhyw un arall ymhlith pobl Dduw ar wahân i'r rhai sy'n feibion i Isaac.

Mae'r Iddeweiddwyr yn rhannu'r un gred â Paul mai Crist yw cyflawniad bwriad Duw ar gyfer ei bobl. Ond mae hyn yn golygu, fel y mae'r Cenedl-ddynion yn ymateb ac yn arddel y ffydd (fel y gwnaeth Abraham) y cânt eu hychwanegu yn unol â'r arwydd adnabyddiaeth o berthyn (enwaediad). Sylfeinir gwaith newydd Duw yng Nghrist ym mharhad bwriad Duw, yn union fel roedd Abraham yn ufudd i ewyllys Duw. Fel hyn mae'r newydd yn unol â'r hen.

Sefyllfa Paul

Sut mae Paul yn ymateb? Gwna hynny mewn ffordd trwy wrthdroi'r cyfan. Os oedd yr Iddeweiddwyr yn datgan bod y newydd yn unol â'r hen, fe ddadleua Paul fod yr hen yn unol â'r newydd. Canolbwynt dadl Paul yn dealltwriaeth o

Dduw, sef bod Duw, yng ngras goruchaf Duw, yn rhydd i wneud pethau newydd. Dyma yn union a wnaeth Duw, trwy atgyfodi Crist oddi wrth y meirw a thrwy gomisiynu Paul fel apostol i'r Cenedloedd neu'r Cenedl-ddynion (1:15-16; 2:8). Ond nid yw gwaith newydd Duw yn rhywbeth anghyfarwydd, gan fod y newydd yn dangos sut y mae'r gorffennol yn cyfeirio ymlaen at ei gyflawniad.

Cyflwynna Paul hefyd bedair o ddadleuon plethedig:

- Nid yw enwaediad yn cael ei grybwyll tan Genesis, pennod 17. Pan ddaeth Abraham i gredu gyntaf, roedd yn ddienwaededig. Felly sefydlwyd y cyfamod ar sail yr hyn a oedd o anghenraid yn addewid ac o ganlyniad nid oedd modd newid dim arno wedyn.
- Gan droi at wireb werinol gyffredinol (cf. Ioan 14:9) fod plant yn adlewyrchu nodweddion eu rhieni (fel y dywediad Saesneg '*like father like son*'), honna Paul (cf. 3:7 yng nghyd-destun Gen. 15:6) uniongyrchedd y ddolen rhwng addewid, plant a ffydd. Mae'r syniad 'mab – *son of* (Abraham) yn nhermau rhannu nodwedd (e.e. 'mab cyfiawnder') yn helpu safbwynt Paul. Mae Paul yn nodedig yn osgoi'r ymadrodd amgen cyffelyb y gallai fod wedi ei ddefnyddio (ac a oedd yn bwysig o safbwynt yr Iddeweiddwyr), 'had' (cf. Luc 1:55), gan ei fod eisiau adeiladu dadl ynghylch epil wedi ei sefydlu ar ffydd yn hytrach nag ethnigedd. Felly, mae dilynwyr Crist yn adlewyrchu nodwedd hanfodol eu tad Abraham, sef ffydd. Yn y persbectif clasurol, Abraham yw tad Israel, ac roedd yn cael ei ystyried fel y model o'r Iddew ymroddedig. Y ffaith

Hunaniaeth a Pherthyn: Persbectif ar Lythyr Paul at y Galatiaid

bod Abraham wedi credu yw'r sail gyntaf o berthynas â Duw ('cyfrifodd hyn yn gyfiawnder iddo'). Yn achos Paul, mae cydberthynas uniongyrchol rhwng ffydd Abraham 'ffydd yn Nuw' a ffydd y crediniwr 'ffydd yng Nghrist'.

- Mae'r Iddeweiddwyr eu hunain yn derbyn fod Iddewiaeth yn cydnabod proselytiaid enwaededig sydd wedi dyfod at Iddewiaeth trwy ffydd. Felly, mae gan ffydd hawl dilys yn yr hyn y mae'n ei olygu i berthyn, yn gymaint ag a wna enwaediad.
- Yn Gen.18:18 (cf. 12:3) dywed y traddodiad ei bod hi'n fwriad bob amser gan Dduw y byddai'r Cenedl-ddynion yn rhannu'r fendith yr oedd Duw wedi ei haddo i Abraham a'i ddisgynyddion. Maen nhw'n gwneud hynny wrth ddyfod i ffydd yn neges yr efengyl.

Mae testun arall, fodd bynnag, i'w drafod (gweler trydedd dadl yr Iddeweiddwyr, uchod). Yn Deut. 27:26 (cf. Gal. 3:10) mae'n datgan: 'Melltith ar unrhyw un nad yw'n ategu holl eiriau'r gyfraith hon trwy eu cadw.' Yn ddiau, gwna hyn achos yr Iddeweiddwyr yn derfynol? Fodd bynnag, all sylw byr ar felltith fod mewn trefn. Ei ystyr yw'r gwrthgyferbyniad i fendith, h.y. mae'n disgrifio colli breintiau'r cyfamod. Mae'r Iddeweiddwyr a Paul yn cyfeirio at yr un cwestiwn allweddol: sut gall bendith Abraham gwmpasu'r Cenedl-ddynion yng ngoleuni melltith an-ymlyniad, sy'n gwahardd yr Iddew o'r cyfamod? I'r Iddeweiddwyr roedd hyn yn cael ei gyflawni (a'r felltith yn cael ei hosgoi) trwy fynnu bod y Cenedl-ddynion yn derbyn enwaediad, ac felly'n dod o reidrwydd yn Iddewon cadwedig. (Nid oedd gwahaniaeth gweithdrefnol mewn gwirionedd, yma i'r Iddewon yn derbyn proselytiaid atyn nhw.) Yn y ffordd hon,

cafodd cenhadaeth Duw yng Nghrist, trwy ymgorffori'r Cenedl-ddynion yn y cyfamod, ei chyflawni.

Ond cymerodd Paul lwybr gwahanol. Dadleuodd (cf. 3:10) fod consyrn yr Iddeweiddwyr ynghylch ymlyniad ('dibynnu ar weithredoedd y gyfraith') mewn gwirionedd yn gwadu mai ffydd oedd gwir sylfaen y cyfamod o'i ddechrau. Mewn geiriau eraill, roedd ymlyniad â'r gyfraith yn llifo o ffydd yn hytrach na ffydd ddiffiniedig. Roedd yr hyn a ddylai fod yn fendith yn cael ei droi i fod yn gwest am hunaniaeth (yng Nghrist) a oedd yn bytholi ethnigrwydd. I Paul, roedd yr Iddeweiddwyr, trwy droi bwriad y gyfraith (o ufudd-dod sy'n tarddu o ffydd) i ffurf o ddeddfoliaeth, yn baradocsaidd wedi achosi'r felltith trwy osod eu hunain oddi allan i'w fwriad fel bendith (gweler Dunn, 1993, tt. 169-173). Yma, mae Paul yn hawlio fod y profiad o'i genhadaeth ei hun fel cyfiawnhad, sef bod y Cenedl-ddynion yn derbyn ei neges mewn ffydd ac ufudd-dod. Felly, roedden nhw eisoes yn cael eu dwyn ynghyd i mewn i'r cyfamod yn eu hunaniaeth newydd yng Nghrist. Roedd gosod yr amod o enwaediad yn gyfystyr â gwneud cyflawniad cyfannol Duw yng Nghrist (3:28) yn annigonol yn ogystal â bod mewn gwirionedd yn amherthnasol (cf. 5:6).

Mae arwyddocâd ffurfiannol (moesol) ffydd hefyd yn cyfarwyddo safbwyntiau'r Iddeweiddwyr yn ogystal â rhai Paul. I'r Iddeweiddwyr, roedd enwaediad yn nod o adnabyddiaeth oedd hefyd yn sicrhau bywyd moesol o gadw at y ddeddf. Mae Paul yn gwybod hyn wrth gytuno fod enwaediad yn ymrwymo un i gadw at y ddeddf yn gyfan gwbl. Ond mae ef yn cyflwyno'r honiad bod bywyd yng Nghrist dan arweiniad yr Ysbryd yn cyflawni'r gyfraith, trwy gadarnhau'r hyn yr oedd Iddewiaeth ei hun yn ei dderbyn, sef bod

Hunaniaeth a Pherthyn: Persbectif ar Lythyr Paul at y Galatiaid

y cyfan o'r gyfraith yn gynwysedig yng ngharu Duw a charu cymydog (5:14, cf. Rhuf. 13:8-10; Marc 12:28-31; Iago 2:8; Lef. 19:18; Tobit 4:15). Felly, yn 5:22-23, darpara Paul amlinelliad o ffrwyth yr Ysbryd. (Noder fod Paul yn crybwyll 'ffrwyth' nid 'ffrwythau'. Mae hyn yn ddefnydd bwriadol o'r unigol corfforaethol, sy'n cyfleu'r amrywiaeth yn yr harmoni sy'n rhan o waith Duw.) Yn amlycaf yn rhestr hon o rinweddau (fel yn 1 Cor. 13:13, cf. 1 Tim: 4:12 a 2 Pedr 1:5-7) y mae cariad. Mae rhai wedi awgrymu y gall sgets o gymeriad Iesu ei hun fod dan sylw, o wybod am ddysgeidiaeth gymeriadol Iesu ei hun ar y thema hon. (Noder hefyd sut y dywed Paul mai'r rhai sy'n meddu ar y ffrwyth hwn yw'r 'rhai yng Nghrist Iesu'.) Yn bendant, ac efallai'n eironig, fe bwysleisia Paul nad oes cyfraith yn erbyn hyn (5:23b), ac o'r herwydd maen nhw mewn gwirionedd yn cyflawni cyfraith Crist (6:2).

Nid oedd ar syniad Paul o hunaniaeth Gristnogol, felly, angen unrhyw danategu pellach. Wrth gwrs, fe arhosodd yn falch o'i gefndir Iddewig. Ond fe ddaeth o hyd, yng ngwaith newydd Duw yng Nghrist, i'r hyn oedd yn gorwedd y tu ôl i'r gwahanfur rhwng Iddew a Chenedl-ddyn, gweledigaeth a oedd iddo ef yn wirionedd o greadigaeth newydd Duw a oedd yn cydnabod llwybr ar gyfer yr

Iddewon a'r Cenedl-ddynion i'r gwirionedd hwn heb i Genedl-ddynion orfod dod yn Iddewon nac Iddewon ddod yn Genedl-ddynion (6:16, safbwynt a ardystiwyd gan yr Eglwys yn Jerwsalem, gweler 2:6). Mae'n hawlio bod ffydd sydd ar waith trwy gariad, yn ymgorfforedig yng ngwaith newydd Duw yng Nghrist, yn syml, yn codi'n uwch na'r holl ddadl am y nod hunaniaeth sef enwaediad (5:6). Roedd Paul yn credu nad oedd wedi gwneud dim yn groes i ysbryd a chymeriad ffydd ei hynafiaid. Fe ddylai hunaniaeth a pherthyn meibion (a merched) Abraham ganfod ei gyflawniad ym mherthynas pawb ynghyd yng Nghrist.

Fel y lledaenodd yr Eglwys, roedd ymlediad y genhadaeth ymysg y Cenedl-ddynion yn golygu bod y ddadl dros enwaediad yn pylu, er bod trafodaeth berthynol am gadw at gyfreithiau ymborth a'r calendr (Actau 15:29; Gal. 4:10; Col. 2:16) wedi parhau am gyfnod. Ond mae'n werth myfyrio ar safbwyntiau'r Iddeweiddwyr ac arwyddocâd sut yr oedd dilyniant a newid yn cyfrif yn y drafodaeth ar hunaniaeth Gristnogol, ac efallai hefyd werthfawrogi arwyddocâd hunaniaeth a pherthyn ar ystyriaethau yn ymwneud â natur ddynol a thraethiad crefyddol yn gyffredinol.

Pwyntiau trafod

1. Aseswch gryfderau a gwendidau ar y naill ochr a'r llall o'r ddadl rhwng Paul a'r Iddeweiddwyr.
2. Allwch chi ddarganfod enghreifftiau eraill o sut y gall y tyndra rhwng parhad a newid gyfrannu at ddealltwriaeth o hunaniaeth, yn y Testament Newydd neu

Gristnogaeth yn fwy cyffredinol, neu mewn un arall o grefyddau'r byd?

Cyfeiriadau

Barrett, C.K. (1985). *Freedom and obligation. A study of the Epistle to the Galatians*. London: SPCK.

Dunn, J.D.G. (1993). *The Epistle to the Galatians*. London: A. & C. Black.

Thomas, R.S. (1963). *Penguin book of religious verse*. Harmondsworth, Penguin.

Mae'r Parchedig Athro James Francis yn ganon dibreswyl yng Nghadeirlan Durham ac yn gymrawd ymweliadol yng Ngholeg Sant Ioan, Durham a Phrifysgol Glyndŵr. Roedd yn uwch-ddarlithydd Astudiaethau'r Testament Newydd ym Mhrifysgol Sunderland, ac yn ddiweddarach yn Bennaeth y Cwrs Gweinidogaeth Ordeiniedig Leol Esgobaeth Durham. Cynnwys ei gyhoeddiadau olygyddiaeth cyfres o lyfrau, Religions and Discourse, i Peter Lang (Rhydychen); llyfr ar blentyndod yn yr hen fyd; a chyfraniadau i eiriaduron Beiblaidd ar deulu, addysg a gwaith, ac ar weinidogaeth hunangynhaliol Paul.

Y Mudiadau Pentecostaidd a Charismataidd

William K. Kay

Cafodd y Mudiad Pentecostaidd gyda'i wreiddiau ym Methodistaeth ei sbarduno gan ddiwygiadau ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Carlamodd ledled y byd gan ffurfio llawer o enwadau, yn pwysleisio llefaru â thafodau ac iacháu, ac yn ystod y 1960au unodd y mudiad carismataidd â'r mudiad – mudiad a oedd yn credu'r un pethau, fwy neu lai, ond yn gweithredu oddi mewn i enwadau prif-lif. Rhoddodd y mudiad carismataidd ei hun fodolaeth i'r mudiad neo-garismataidd a oedd yn cynnwys Eglwysi a dorrodd yn rhydd oddi wrth eu henwadau traddodiadol. Cafodd y neo-garismataid eu galw ambell dro yn Y Drydedd Don, gyda'r Pentecostaliaid y Don Gyntaf a'r Carismataid fel yr Ail Don.

Cyswllt manyleb: RS 3 CHR: Astudio Cristnogaeth (A2), 4. Cristnogaeth yn y Byd Modern.

Cyflwyniad

Yn ystod ei hanes dros 2000 o flynyddoedd, bu'r Eglwys Gristnogol yn gartref i bob math o fudiadau adnewyddol. Mae mudiadau o'r fath yn digwydd oherwydd bod arweinwyr ar amrywiol raniadau'r Eglwys yn dymuno eu symud i un cyfeiriad neu'r llall, ac i bwysleisio un athrawiaeth neu ffurf yn fwy na'r llall. Fel arfer bydd mudiadau adnewyddol yn pwysleisio ysbrydolrwydd mewnol, ond weithiau fe allant fod yn ymwneud â ffurfiau o litwrgi neu ddefodaeth.

Gellir ystyried y mudiadau Pentecostaidd a charismataidd, sydd â'u sefydliad yn dyddio o flynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif, fel mudiadau adnewyddol sydd â chwmpas ystod eang.

Er mwyn gosod hyn mewn fframwaith hanesyddol, gallwn ddweud bod y mudiad Pentecostaidd yn dechrau tua'r flwyddyn 1900 a'r mudiad carismataidd tua'r flwyddyn 1960. Ar ôl y flwyddyn 1960 mae'r ddau fudiad yn cyd-redeg, gyda'r naill a'r llall yn cael dylanwad ar ei gilydd.

Dechreuadau

Fel rheol, gwelir fod y mudiad Pentecostaidd â'i wreiddiau oddi mewn i Fethodistaeth y ddeunawfed ganrif, ond hefyd weithiau, caiff ei weld fel dymuniad gan Gristnogion i droi'r cloc yn ôl i wir ddechreuadau Cristnogaeth ac ail-greu'r amgylchiadau a oedd yn bodoli yn y Beibl, ac yn enwedig yn Llyfr yr Actau (Kay, 2011, tt. 1, 12 ; Robeck ac Yong,

Y Mudiadau Pentecostaidd a Charismataidd

2014, t. 5). O'i ystyried yn y goleuni hwnnw, mudiad adferol, i bob pwrpas, yw'r mudiad Pentecostaidd trwy'r hwn y caiff hanes yr Eglwys ei ddehongli fel ei fod wedi dechrau ar bwynt uchel gyda gwrthiau, arwyddion a rhyfeddodau a grym ffres o obaith yn nychweliad Iesu ac yna, ar ôl y flwyddyn 250, wedi mynd i ddirywiad ac yn y pen draw wedi troi'n rhywbeth pur wahanol trwy ddod yn fwy sefydliadol, haearnidd, hierarchaidd a seremonïol. Yn unol â'r dehongliad hwn o hanes yr Eglwys, mae yma adferiad graddol o hanfodion yr Eglwys fore. Dechreuau hyn, yn fwyaf nodedig, gyda Diwygiad yr unfed ganrif ar bymtheg ac ail-bwyslais Luther a Calvin ar gyfiawnhad trwy ffydd, ac yna symud trwy'r Bedyddwyr, sy'n pwysleisio bedydd oedolion trwy drochiad, ac yna'r Methodistiaid sy'n pwysleisio pregethu ar y stryd ac efengyliaeth.

Neu, fe allwn ni weld bod y mudiad Pentecostaidd fel petai'n esblygu o Fethodistiaeth mewn ffordd llawer symlach (Dayton, 1987). Addysgodd John Wesley (1703-91), sylfaenydd Methodistiaeth, fod yn ofynnol i fodau dynol gael eu 'cyfiawnhau' neu gael eu gosod mewn perthynas gywir â Duw trwy dderbyn aberth Iesu a bod, ar ôl hynny, yn ofynnol iddyn nhw gael eu 'sancteiddio'. Trwy hynny, roedd yn golygu bod yn rhaid iddyn nhw addasu eu ffordd o fyw er mwyn dod yn fwy sanctaidd. Felly roedd llwybr y Cristion wedi ei drefnu'n dda: yn gyntaf cyfiawnhad ac yna sancteiddiad, ac roedd y naill gam a'r llall yn ddibynnol ar yr Ysbryd Glân. Profiad crefyddol o Iesu oedd tröedigaeth felly, i'w ddilyn gan ddiwygiad graddol o agwedd ac ymddygiad (e.e. rhoi'r gorau i hapchwarae a meddwdod) trwy gymorth yr Ysbryd Glân ar waith yn fewnol ym mhob credadun.

Roedd John Fletcher (1729-85), Methodist blaengar, yn dadlau mai'r digwyddiad yn Actau 2, pan ddisgynnodd yr Ysbryd Glân ar Eglwys oedd yn ddisgwyllgar, oedd eu sancteiddiad sydyn mewn gwirionedd. Y foment hon, a ddigwyddodd ar ddydd cyntaf y Pentecost cyntaf yn y Testament Newydd, yw tarddiad yr enw 'Pentecostal'. Dyma hefyd yr achlysur pryd y dechreuodd pawb yn yr Eglwys fore lefaru â thafodau.

Cafodd yr adnabyddiaeth hon o fedydd yn yr Ysbryd Glân, fel y foment o sancteiddiad, ei derbyn gan lawer o'r Pentecostaliaid a oedd, wrth sefydlu Eglwysi, yn dadlau mai tröedigaeth, yn cael ei ddilyn gan fedydd yn yr Ysbryd, a ddylai fod y llwybr normal i'w ddilyn yn awr gan Gristnogion. Mae'n wir, fodd bynnag, fod carfan Wesleidd o Eglwysi Pentecostaidd, oedd yn dadlau dros broses tri-cham: tröedigaeth, sancteiddiad ac yna fedydd yn yr Ysbryd. Mae'r gwahaniaeth rhwng Pentecostaliaid dau-gam a thri-cham yn parhau hyd heddiw.¹

Mae dau ffactor arall yn cwblhau'r darlun ynghylch tarddiadau Pentecostaliaeth. Yn gyntaf roedd cryn ddiddordeb ymysg rhai cylchoedd o Gristnogion o'r 1830au ymlaen mewn perthynas â chyflawniad proffwydoliaeth Feiblaidd a'r Ail Ddyfodiad, neu ddychweliad, Iesu. Mewn geiriau eraill, roedd grwpiau neilltuol o Gristnogion yn credu y byddai Iesu'n dychwelyd yn fuan o'r nefoedd i'r ddaear ac y byddai hanes cyffredin y ddynoliaeth yn dod i uchafbwynt sydyn. Roedd llawer yn credu na allai hyn ddigwydd, fodd bynnag, nes y byddai'r Iddewon yn dychwelyd i'r Wlad Sanctaidd.

¹ Mae'r Assemblies of God yn derbyn dau gam a'r Church of God (Tennessee) yn derbyn tri.

Y Mudiadau Pentecostaidd a Charismataidd

Yn ail, roedd dymuniad i ddychwelyd doniau iacháu i'r Eglwys fel y byddai'r Eglwys yn dod yn lle y gallai bodau dynol gael ei hiacháu yn dilyn gweddi. Sefydlwyd cartrefi iacháu yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac, yn ddiweddarach, byddai pregethwyr Pentecostaidd yn cynnal cyfarfodydd efengylaidd lle bydden nhw'n annog pobl i roi eu hymddiriedaeth yng Nghrist, ond hefyd yn gofyn iddyn nhw i ddod ymlaen ar gyfer gweddi am iachâd ac, mewn nifer o achosion a gofnodwyd yn glir, fe ddigwyddodd gwyrthiau wedyn (Darragh, 1932).

Pan ddaeth enwadau Pentecostaidd i fodolaeth ar ddechrau'r ugeinfed ganrif rhoddwyd yr holl ffactorau hyn ynghyd i'w cynnwys mewn patrwm athrawiaethol, a chyflwynodd llawer eu cred â'r dywediad syml, 'yr Efengyl gadarn': iachawdwr yw Iesu, bedyddiwr yn yr Ysbryd, iachawr a brenin sydd ar ddyfod.

Lle'r diwygiad

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif digwyddodd nifer o ddiwygiadau crefyddol. Dwysion oedd y rhain o fywyd yr Eglwys a ddygodd gynnwrf mawr i gyfarfodydd crefyddol, a ddenodd adroddiadau yn y wasg, ac a ddygodd bob math o bobl nad oedd fel arfer yn mynychu'r eglwys, a fu'n gyfrifol am dröedigaethau torfol ac a arweiniodd o ganlyniad at newid cymdeithasol amlwg. Parhaodd y diwygiad Cymreig o hydref y flwyddyn 1904 hyd at hydref y flwyddyn ganlynol, ac yn ystod y cyfnod hwn ychwanegwyd tua 100,000 o bobl at yr Eglwys. Byddai cyfarfodydd yr Eglwys yn parhau ymlaen tan yn hwyr yn y nos a bron bob noswaith o'r wythnos.

Mae'r diwygiad Cymreig yn gysylltiedig trwy ohebiaeth â'r diwygiad Azusa Street, Los Angeles, California, yn yr hwn yr oedd credinwyr du eu crwyn a gwyn yn

cymysgu'n rhwydd gan groesawu dyfodiad 'Pentecost newydd' a llefaru â thafodau eraill (Robeck, 2006). Ystyriwyd bod y ddau ddiwygiad yma'n uniongyrchol o law Duw, a'u bod yn arwydd o ddychweliad buan Iesu. Ond roedden nhw hefyd yn ddigwyddiadau anhrefnus, yn emosiynol, ac yn ddigwyddiadau braidd yn afreolus a oedd, pan edwinodd y diwygiadau cyntaf, yn gadael y credinwyr oedd wedi'u mynychu yn ansicr ynghylch beth i'w wneud wedyn. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn y daeth yr enwadau Pentecostaidd i fod yn drefnus, rhai yn y Taleithiau Unedig ac eraill yn y D.U. Sefydlwyd yr enwad Pentecostaidd cyntaf ym Mhrydain tua'r flwyddyn 1910 (yr Eglwys Apostolaidd), Eglwys Elim yn y flwyddyn 1915, a'r 'Assemblies of God' yn 1924 (Kay, 2000, t. 29). Ceisiodd yr enwadau hyn barhau i gynnal bywyd y diwygiad wrth ymgorffori yn eu dogfennau cyfansoddiadol gred mewn bedydd yn yr Ysbryd, llefaru â thafodau, proffwydoliaeth ac iacháu.

Mudiad Carismataidd

Am oddeutu 40 mlynedd, fe luosogodd yr Eglwys Pentecostaidd eu cynulleidfaoedd, bu'n cynnal ymgyrchoedd efengylaidd, adeiladu colegau Beiblaidd, cylchredeg cylchgronau ac anfon cenhadon allan i bob cwr o'r byd. Ond roedden nhw i raddau helaeth yn cadw eu hunain oddi mewn i'w ffiniau eu hunain, ac ychydig iawn o berthnasu a fu rhyngddyn nhw â thraddodiadau Cristnogol eraill. Ledled y byd, erbyn y flwyddyn 1960, efallai mai tua 15 miliwn o bobl oedd eu nifer (Hunt & Van der Maas, 2002, t. 286).

Fe ddechreuodd hyn newid toc ar ôl y flwyddyn 1960, pryd y dechreuodd pregethwr Esgobol yn yr Unol Daleithiau, Dennis Bennett (1917-91), lefaru â thafodau. Dilynwyd hyn yn gyflym gan

Y Mudiadau Pentecostaidd a Charismataidd

grŵp o academyddion Pabyddol ar gampws Prifysgol Duquesne ym mis Chwefror 1967, ac yna gan efengylwyr oddi mewn i lawer o enwadau oedd eisoes yn bodoli.

Yn ystod y degawd nesaf, roedd y Cristnogion Pentecostaidd a oedd wedi bod braidd yn ynysig oddi wrth aelodau eraill o'r Eglwys fyd-eang, yn awr yn gallu ymuno â nhw mewn cynullïadau rhyng-enwadol. Roedd Cristnogion Carismataidd a Christnogion Pentecostaidd yn canu'r un caneuon, yn addoli ar y cyd, yn clywed yr un pregethwyr, ac yn credu llawer o bethau tebyg. Roedd hyn yn arbennig o wir, gan mai un o effeithiau bedydd yn yr Ysbryd Glân oedd cynnull a grymuso Cristnogion lleyg, gyda'r canlyniad y byddai'r mwyafrif o gynulleidfaoedd carismataidd yn cynnal grwpiau tŷ (weithiau'n cael eu galw yn 'grwpiau cell') a fyddai'n gweithredu ganol wythnos yn ogystal â'r prif wasanaethau ar y Sul. Roedd fformat ac awyrgylch grŵp tŷ oddi mewn i eglwysi Pentecostaidd ac eglwysi carismataidd bron yr un peth, a phan ychwanegir at hyn ddigwyddiadau haf fel 'Spring Harvest' a oedd yn cael eu trefnu'n rhyng-enwadol, mae'n hawdd gweld sut yr oedd y Pentecostaliaid clasurol hŷn a'r carismataid ieuengach newydd yn cyd-gymysgu yn y D.U. Digwyddodd cyfnewidiadau tebyg mewn mannau eraill yn y byd ac, yn arbennig yn y Gorllewin, a gostyngodd ffyddlondeb enwadol ac fe fyddai'n hawdd i deulu symud o Eglwys Bentecostaidd i un garismataidd neu *vice versa* pe bydden nhw'n symud cartref.

Mae'r mudiad carismataidd - y gellid ei ddiffinio fel y ffrwd o bobl oddi mewn i bron bob un o'r enwadau prif-lif sy'n derbyn gweithred gyfredol yr Ysbryd Glân yn eu bywyd beunyddiol - yn awr yn llawer mwy na'r hen fudiad Pentecostaidd. Pan gaiff niferoedd y

carismataid a'r Pentecostaliaid eu dwyn at ei gilydd ledled y byd, credir bod y nifer gymaint â 500 miliwn o bobl, ond bod y mwyafrif helaeth o'r rhain yn garismataidd, gyda'r Pentecostaliaid ddim ond yn cyfrif efallai tua degfed ran o'r cyfanswm. Ond mae'n anodd iawn gwahaniaethu gydag unrhyw hyder y carismataid a'r neo-garismataid yn Tsiena a rhannau o Affrica. Gyda'i gilydd, mae'r Pentecostaliaid a'r carismataid (a'r neo-garismataid: h.y. carismataid sydd ddim yn rhan o Eglwysi prif-lif traddodiadol fel yr Anglicaniaid neu'r Bedyddwyr) wedi eu cynnwys mewn dros 740 o enwadau Pentecostaidd, 6,530 o enwadau sydd ddim yn Bentecostaidd ac 18,810 o rwydweithiau a grwpiau neo-grismataidd (Hunt & Van der Maas, 2002, t. 284). Caiff y tri ffrwydrad o dyfiant - Pentecostaidd, carismataidd a neo-garismataidd - eu cymharu ambell dro â thair ton o'r Ysbryd Glân yn torri dros yr Eglwys.

Addoli

Mae addoliad oddi mewn i Eglwysi Pentecostaidd a charismataidd yn amrywio yn ôl maint y gynulleidfa. Lle mae'r gynulleidfa yn llai nag oddeutu 100 o bobl, yn ychwanegol at ganeuon addoli bywiog, clywed darlleniadau o'r Beibl a phregethau mynegiannol hir, mae'n gyffredin i ganfod llawer o gyfranogiad cynulleidfaol yn y cyfarfodydd. Gall pobl sefyll i weddio'n uchel, i broffwydo, i rannu rhyw fath o atebion i weddi, neu siarad am weledigaeth maen nhw wedi cael profiad ohoni neu 'ddarlun' y maen nhw wedi ei weld. Mae'r cyfranogiad agored hwn yn ganlyniad o'u cred yng ngweithgaredd yr Ysbryd Glân ym mywyd pob crediniwr. Gallwn ddweud bod y gwahanfur rhwng lleygwyr a chlerigwyr wedi ei dorri i raddau, neu fod y gred yn yr Ysbryd Glân yn cael yr

Y Mudiadau Pentecostaidd a Charismataidd

effaith o ddemocrateiddio'r bywyd cynulleidfaol. Ond nid dyma'r stori'n llawn, oherwydd mewn Eglwysi Pentecostalaidd a neo-garismataidd mwy o faint, mae'r cyfarfodydd yn llawer llai cyfranogol, a'r rhaniad rhwng clerigwyr a'r lleygwyr yn cael ei orfodi gan gred bod y clerigwyr wedi'u neilltuo a'u 'heneinio' yn arbennig gan yr Ysbryd Glân. Gellir ystyried yr arweinwyr hyn fel apostolion neu broffwydi hynod o ddawnus. Mewn Eglwysi o'r fath, tuedda'r weddi ddigymell neu'r proffwydo cael eu cyfyngu i gyfarfodydd tŷ.

Mewn Eglwysi carismataidd sy'n litwrgiaidd, e.e. Anglicanaidd a Chatholig Rhufeinig, mae'r gwasanaeth wedi ei ragosod oddi mewn i lyfr gweddi. Yr hyn sy'n digwydd yma yw, os yw'r gynulleidfa'n garismataidd, rhaid rhoi'r cyfle oddi mewn i drefn y gwasanaeth ar gyfer yr ymarfer digymell o ddoniau ysbrydol. Mae'r litwrgi'n cynnig y fframwaith, ond fe ddigwydd doniau ysbrydol a chyfraniadau cynulleidfaol digymell yn baradocsiaid ar adegau sydd wedi eu trefnu rhag blaen yn ystod y gwasanaeth.

Pwysleisiadau

Pwysleisia'r mudiadau Pentecostalaidd a'r (neo-)garismataidd brofiad crefyddol. Gwelir hyn fel modd o ddilysu

athrawiaeth, nid fel bod yn annibynnol ohoni. Felly mae cred yn athrawiaeth bedydd yn yr Ysbryd Glân yn cael ei ddilysu gan brofiad o fedydd yn yr Ysbryd Glân. Yn yr un modd, pwysleisia'r mudiad Pentecostalaidd a charismataidd iachâd trwy weddi ac arddodi dwylo. Er y bydd efengylwyr a gweinidogion yn arddodi dwylo ar bobl ac yn gweddiïo drostyn nhw, rhennir y dasg hon hefyd gan leygwyr.

Dywedwyd unwaith fod Pentecostaliaeth yn pwysleisio llefaru â thafodau yn ormodol; ond tra y byddwch yn clywed ymadroddion mewn tafodau yn eu cyfarfodydd, cysylltir yr ymarfer yn awr yn amlach na dim â gweddi bersonol, a chaiff ei weld yn llai pendant fel tystiolaeth o fedydd yn yr Ysbryd.

Mae pwyslais ar ffyniant materol neu gyllidol/ariannol oherwydd y gred nad yw Duw cariadlawn eisiau i'w bobl fyw mewn tloidi. Gall hyn arwain at waith dyngarol o bob math (Miller & Yamamori, 2007). Mae pwyslais hefyd ar weinidogaeth merched oherwydd y gred fod yr Ysbryd Glân yn cael ei arllwys yn gyfartal ar ddynion a merched, a bod y gallu i weinidogaethu yn llifo oddi wrth nerth yr Ysbryd. (Actau 2:17, 18).

Y Mudiadau Pentecostaidd a Charismataidd

Cysylltau

<http://www.aog.org.uk> (Assemblies of God in Great Britain)

<http://ag.org/top/> (American Assemblies of God)

http://en.wikipedia.org/wiki/Catholic_Charismatic_Renewal (Wikipedia: Catholic charismatic renewal)

<http://www.elim.org.uk> (Elim Pentecostal Churches in the UK)

<http://www.kicc.org.uk/Home/tabid/36/Default.aspx> (Kingsway

International Christian Centre, a black megaChurch in London)

<http://www.pewforum.org/2006/10/05/pentecostal-resource-page/> (online resource on international Pentecostalism using survey data)

<http://www.springharvest.org> (Spring Harvest)

Pwyntiau trafod

1. Sut y byddech yn diffinio 'profiad crefyddol' a pha fath o brofiad y byddech chi'n ei ddisgwyl o 'fedydd yn yr Ysbryd Glân' fod?
2. Pam rydych chi'n meddwl bod Cristnogaeth yn ymddangos ei bod angen mudiadau adnewyddol o bryd i'w gilydd?
3. A ddylai Cristnogion ddisgwyl i'r Eglwys heddiw fod yr un fath â'r Eglwys yn y Beibl?
4. A ddylai Cristnogion ddisgwyl i'r Ysbryd Glân weithredu yn yr un ffordd heddiw â'r Ysbryd Glân yn y Beibl?

Y Mudiadau Pentecostaidd a Charismataidd

Cyfeiriadau

- Dayton, D.W. (1987). *Theological roots of Pentecostalism*. Metuchen, New Jersey: Hendrickson.
- Darragh, R.E. (Ed) (1932). *In defence of his word. Being a number of selected testimonies of dire suffering, healed by the power of Christ, under the ministry of Principal George Jeffreys*. London : Elim Publishing Co.
- Hunt, S.M., & Van der Maas, E.M. (Eds) (2002). *International dictionary of Pentecostal and charismatic movements*. Grand Rapids, Michigan: Zondervan.
- Miller, D.E., & Yamamori, T. (2007). *Global Pentecostalism: The new face of Christian social engagement*. Los Angeles: University of California Press.
- Robeck, C.M. (2006). *The Azusa Street Mission and revival*. Nashville, Tennessee: Nelson Reference.
- Robeck, C.M., & Yong, A. (Eds) (2014). *Cambridge companion to Pentecostalism*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Kay, W.K. (2000). *Pentecostals in Britain*. Carlisle: Paternoster.
- Kay, W.K. (2009). *Pentecostalism: Core text*. London: SCM Press.
- Kay, W.K. (2011). *Pentecostalism: A very short introduction*. Oxford: Oxford University Press.

Y Parchedig Athro William Kay oedd sefydlydd-gyfarwyddwr y Ganolfan ar gyfer Astudiaethau Pentecostaidd a Charismataidd ym Mhrifysgol Bangor ac yn ddiweddarach yn Athro Astudiaethau Pentecostaidd ym Mhrifysgol Caer. Ar hyn o bryd mae'n Athro Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Glyndŵr. Ymysg ei gyhoeddiadau mae: Pentecostalism: A very short introduction (Oxford University Press, 2011), Pentecostalism: Core text (SCM Press, 2009), Apostolic Networks in Britain (Paternoster, 2007), ac A reader in Pentecostal and charismatic studies (SCM Press, 2004). Ef yw golygydd Journal of the European Pentecostal Theological Association (<http://www.maneyonline.com/loi/jep>).